Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

25 Mawrth 2024

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Safonau'r Gymraeg – ymgynghoriad ar eich hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Fel y gwyddoch, yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 a diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 mae modd i Gomisiynydd y Gymraeg osod safonau'r Gymraeg ar eich corff. Yn dilyn cyfarfodydd un wrth un gyda chynrychiolwyr eich corff, mae'r Comisiynydd yn cychwyn y broses ymgynghori statudol o dan adran 47 Mesur y Gymraeg gyda chi.

**(1) Ymgynghori:**

Gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd ynghlwm. Mae'r ffurflen yn cynnwys gofod i chi nodi os ydych o'r farn bod un neu fwy o'r safonau yn yr hysbysiad yn afresymol ac/neu'n anghymesur. Os ydych chi o'r farn bod un neu fwy o'r safonau yn yr hysbysiad yn afresymol ac/neu'n anghymesur dylid nodi:

a) rhif y safon yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft sydd yn eich barn chi'n afresymol ac/neu anghymesur;

b) pam fod y safon yn afresymol ac/neu'n anghymesur, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny;

c) a fyddai amrywio'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn ei wneud yn rhesymol a/neu chymesur. Er enghraifft, drwy gyflwyno'r gofyniad ar adeg gwahanol, mewn amgylchiadau gwahanol neu mewn ardaloedd gwahanol neu drwy osod safon arall sy'n ymwneud â'r un gweithgaredd. Dylid nodi beth yw'r rheiny, gan nodi pob rheswm a thystiolaeth i gefnogi hynny.

Wrth ymateb, dylid ystyried cynnwys yr hysbysiad cydymffurfio drafft ochr yn ochr â chynnwys Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Dylid rhoi sylw yn arbennig i

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

adrannau dehongli y safonau sy'n nodi pryd mae rhai safonau yn gymwys ac yn rhoi arweiniad ar sut i ddehongli'r safonau. Dylech hefyd ystyried y Cod Ymarfer sy'n egluro gofynion ymarferol y safonau.

**(2) Dyddiad cychwyn ymgynghori:**

Cychwynnir y cyfnod ymgynghori ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft ar **25 Mawrth 2024**. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ar **21 Mehefin 2024**.

Nid yw methiant sefydliad i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad hwnnw.  Os nad ydych am gyflwyno sylwadau neu dystiolaeth ar gynnwys yr hysbysiad cydymffurfio drafft byddwn yn ddiolchgar os fyddech yn cadarnhau hynny.

*Noder mai yn electroneg yn unig rydym yn darparu'r hysbysiad cydymffurfio drafft a'r ffurflen ymateb*.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, mae croeso i chi gysylltu â'm swyddogion ar 0345 60 33 221 neu drwy post@cyg-wlc.cymru.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg